



Ein cyf/Our ref EM/05512/19

Janet Finch-Saunders AC  
Aelod Cynulliad dros Aberconwy  
Cadeirydd – Pwyllgor Deisebau  
Cynulliad Cenedlaethol Cymru  
Tŷ Hywel  
Caerdydd  
CF99 1NA

senedddeisebau@cynulliad.cymru

14 Awst 2019

Annwyl Janet,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 31 Gorffennaf ynglŷn â Deiseb P-05-873 – ‘Gwersi Cymraeg am ddim i bobl Cymru’. Mae gwybodaeth bellach mewn ymateb i drafodaethau’r pwyllgor am y ddeiseb hon ar 9 Gorffennaf wedi eu cynnwys isod.

### Nifer y bobl bydd yn cael eu hyfforddi i addysgu’r Gymraeg

Yn ôl gwybodaeth a gasglwyd gan Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, mae 575 o diwtoriaid yn dysgu cyrsiau prif ffrwd Dysgu Cymraeg ar hyn o bryd. Fel y nodais yn fy llythyr dyddiedig 28 Mehefin, mae Cynllun Datblygu’r Gweithlu y Ganolfan yn egluro sut bydd y gweithlu yn cael ei gefnogi a’i gryfhau dros y pum mlynedd nesaf. Fel rhan o’r gwaith hwn, mae cymhwyster newydd wedi ei ddatblygu er mwyn hyfforddi unigolion sy’n ymuno â’r gweithlu tiwtoriaid Dysgu Cymraeg. Bydd y cymhwyster hwn ar gael o fis Medi 2019. Nod y Ganolfan yw sicrhau bod 30 o unigolion yn ennill y cymhwyster hwn yn flynyddol.

## Nifer y lleoedd fforddiadwy a lleoedd am ddim i ddysgwyr Cymraeg

Am y tro cyntaf erioed, bydd un ffi gyson (£90 fesul cwrs) yn cael ei gyflwyno gan bob darparwr Dysgu Cymraeg o Fedi 2019. Mae polisi ffioedd Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol yn caniatáu i ddarparwyr gynnig gostyngiadau o hyd at 100% ar gyfer cyrsiau blaenoriaeth a/neu er mwyn targedu cynulleidfaoedd penodol. Ar hyn o bryd mae gostyngiadau yn cael ei gynnig ar tua thraean o'r 1,500 o gyrsiau sy'n cael eu cynnig yn flynyddol.

Yn Gywir,

A handwritten signature in blue ink, appearing to read 'M. E. Morgan'.

**Eluned Morgan AC/AM**

Gweinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol  
Minister for International Relations and the Welsh Language